# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN**

Dyddiad ac Amser

**4.00 y.h., DYDD MERCHER, 2AIL GORFFENNAF, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni***

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679556**

**Rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

# CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN

## AELODAETH

**<u>Cynghorwyr Gwynedd</u>**

**Dafydd Davies**
**Gareth Tudor Jones**
**John Brynmor Hughes**
**Gurffydd Williams**
**Gareth Williams**

**<u>Eraill</u>**

**Enwebeion Cynghorau Cymuned Aberdaron, Buan, Botwnnog, Clynnog, Llanbedrog, Llanaelhaearn, Llanengan, Nefyn, Pistyll a Thudweiliog.**

**Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd**

**<u>Enwebeion yr asiantaethau/sefydliadau canlynol</u>**

**Ymddiriedolaeth Genedlaethol,**
**Cyfoeth Naturiol Cymru,**
**Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor,**
**Cyfeillion Llŷn,**
**Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr,**
**Undeb Amaethwyr Cymru,**
**Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn,**
**Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig/CPRW,**
**Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd,**
**Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn.**

# R H A G L E N

**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2025/26.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2025/26.

**3. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

I ystyried unrhyw eitem sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd.

**6. COFNODION** 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2024, fel rhai cywir.

**7. FFERMIO BRO** 9 - 10

I rannu gwybodaeth am gynllun grant amgylcheddol newydd – Ffermio Bro.

**8. DIWEDDARIAD AR BROSIECTAU CYFALAF AHNE LLŶN** 11 - 13

I rannu diweddariad am brosiectau cyfalaf AHNE Llŷn.

**9. Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY** 14 - 15

I rannu gwybodaeth am sefyllfa'r Gronda Datblygu Cynaliadwy a datblyguadau syrdd ar y gweill.

**10. AOLYGU CYNLLUN RHEOLI'R AHNE** 16 - 24

I rannu cynnwys gwybodaeth am adolygu Cynllun Rheoli'r AHNE.

# CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL LLŶN 26/11/2024

**Yn bresennol**:

**Aelodau:** Y Cynghorwyr **Gareth Williams**, **Gareth Tudor Jones**, **Gruffydd Williams** ynghyd â **Sian Parri** (Cyngor Cymuned Tudweiliog) (Cadeirydd y cyfarfod hwn, yn sgil absenoldeb y Cadeirydd), **Jina Gwyrfai** (Cyngor Cymuned Llanaelhaearn), **Noel Davey** (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig), **Linda Ashton** (Cyfoeth Naturiol Cymru), **Gillian Walker** (Cyfeillion Llŷn), **Eirian Allport** (Cyngor Cymuned Clynnog Fawr), **Dewi Evans** (Cyngor Cymuned Aberdaron), **Hedd Rhys** (NFU) a **Morgan Jones-Parry** (Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor)

**Swyddogion: Bleddyn P. Jones** (Swyddog AHNE Llŷn), **Elin Wyn Hughes** (Swyddog Gweithgareddau AHNE Llŷn), **Heledd Fflur Jones** (Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio) a **Rhodri Jones** (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 5: Keith Davies** (Prif Ymgynghorydd Tirweddau Dynodedig, Cyfoeth Naturiol Cymru)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd datganiadau o ymddiheuriad gan:

- **T Victor Jones** (Cyngor Cymuned Llanbedrog) (Cadeirydd).
- **Einir Wyn** (Cyngor Cymuned Llanengan)
- **Y Cynghorydd Angela Russell** (Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd)
- **Y Cynghorydd John Brynmor Hughes**
- **Euros Jones** (FWAG Cymru)
- **Jenny Emmett** (Archaeoleg Gwynedd)
- **Rhydian Owen** (Undeb Amaethwyr Cymru)
- **Morus Llwyd Dafydd** (Swyddog Prosiect AHNE Llŷn)

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyd-bwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Medi, 2024, fel rhai cywir.

Cadarnhawyd bod Swyddogion wedi llythyru Llywodraeth Cymru yn cyfleu anogaeth y Cyd-bwyllgor iddynt weithredu ar argymhellion Comisiwn Cymunedau Cymraeg fel mater o frys. Gofynnodd yr Is-gadeirydd am gopi o'r llythyr.

## 5. ADOLYGU CYNLLUN RHEOLI'R AHNE

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Swyddog AHNE Llŷn a Prif Ymgynghorydd Tirweddau Dynodedig, Cyfoeth Naturiol Cymru.

Atgoffwyd yr Aelodau mai cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd yw paratoi ac adolygu Cynllun Rheoli ar gyfer yr AHNE yn unol â Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Er hyn, pwysleisiwyd bod gan y Cyd-bwyllgor rôl ymgynghorol bwysig yn y broses o baratoi ac adolygu'r Cynllun Rheoli gan gynnwys:

- Rhoi cyngor ar baratoi a gweithredu Cynllun Rheoli ar gyfer yr AHNE
- Monitro a gwerthuso cynnydd o fewn rhaglen weithredol y Cynllun Rheoli yn flynyddol ac adolygu'r Cynllun ei hun yn rheolaidd.

Eglurwyd bod rhaid i'r Awdurdod ddilyn canllawiau wrth baratoi ac adolygu'r Cynllun Rheoli. Tynnwyd sylw at ganllawiau a gyhoeddwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ond eglurwyd eu bod wedi dyddio erbyn hyn. Eglurwyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghorydd statudol i Lywodraeth Cymru ar ddynodiadau tirwedd (AHNEau a'r Parciau Cenedlaethol).. Sicrhawyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi comisiynu cwmni 'Land Use Conultants' er mwyn adolygu a diweddaru'r canllawiau hyn er mwyn iddynt fod yn addas ar gyfer ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol a'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru. Tynnwyd sylw mai nod y canllawiau yw sicrhau bod Cynlluniau Rheoli yn:

- Arwain, cynllunio a rheoli newid trawsnewidiol
- Cydredeg gyda pholisïau a deddfwriaethau perthnasol
- Ymgysylltu gyda rhanddeiliaid trwy gydol y broses

Cadarnhawyd bydd y canllawiau newydd ar gyfer y Cynllun Rheoli yn cydblethu gofynion cenedlaethol a blaenoriaethau'r ardal leol.

Sicrhawyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn awyddus i gynorthwyo Swyddogion a'r Cyd-bwyllgor drwy'r broses o adolygu'r Cynllun Rheoli.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:

Mynegwyd pryder bod cwmni Land Use Consultants wedi ei leoli yn Llundain gan ofyn pa sicrwydd a geir bod blaenoriaethau lleol yn cael eu cyfarch o fewn y canllawiau. Eglurwyd gan y Prif Ymgynghorydd Tirweddau Dynodedig bod y cwmni wedi cael eu comisiynu drwy dendr i ddatblygu'r canllawiau oherwydd diffyg capasiti o fewn y tîm yng Nghyfoeth Naturiol Cymru. Sicrhawyd bod gan y cwmni brofiad eang o gwblhau gwaith polisi ym maes tirweddau dynodedig yng Nghymru a thu hwnt. Pwysleisiwyd eu bod yn gwmni addas ar gyfer y gwaith a'u bod wedi cael arweiniad clir gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar faterion rheolaethol, partneriaethol a lleol drwy gydol y broses. Eglurwyd bod gan y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol a Swyddogion AHNE Llŷn rôl i sicrhau bod y Cynllun Rheoli yn cydblethu'r canllawiau gyda blaenoriaethau ac anghenion Llŷn.

Trafodwyd y pwysau cynyddol ar faterion newid hinsawdd gan nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ail ystyried cynlluniau coedwigaeth a bioamrywiaeth yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ddiweddar. Ystyriwyd ar ba sail bod y materion hyn yn cael pwyslais mawr o fewn y cynllunio. Mewn ymateb i'r sylwadau, pwysleisiodd y Prif Ymgynghorydd Tirweddau Dynodedig bod newid hinsawdd yn arwain at heriau cyson ar draws Cymru. Eglurwyd bod ymdrechu i ddatrys yr heriau hyn yn flaenoriaeth gan ei fod hefyd yn gwarchod ac adfer natur wrth wneud hynny.

Holiwyd am Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig – nododd Y Prif Ymgynghorydd Tirweddau Dynodedig nad oedd yn delio gyda'r mater hwn ond y byddai yn holi pwy yn Cyfoeth allai ymateb i ymholiadau am y mater.

Trafodwyd amserlen i greu'r Cynllun Rheoli gan nodi mai nod y cynllun cyfredol oedd i fod yn weithredol rhwng 2015 a 2020 ond bod yr amseru wedi llithro gan arwain at iddo fod yn weithredol o 2017 hyd at 2025. Gofynnwyd a yw'n bosib cael Cynllun Rheoli sydd yn weithredol am 10 mlynedd er mwyn osgoi llithriadau o'r fath. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Ymgynghorydd Tirweddau Dynodedig nad oes unrhyw rwystr i Gynlluniau Rheoli bod yn weithredol am gyfnodau estynedig, ond pwysleisiwyd y pwysigrwydd i'w adolygu'n gyson a sicrhau ei fod yn cael sylw teilwng o fewn y Cynllun Datblygu Lleol. Ymhelaethodd yr Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio mai'r dyddiad sail ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol newydd yw 2024 - 2039 a rhagweli'r cynllun hwnnw gael ei fabwysiadu yn 2027.

Gofynnwyd a oes sicrwydd bod yr iaith Gymraeg yn cael sylw teilwng o fewn y canllawiau gan atgoffa bod AHNE Llŷn wedi penderfynu peidio â defnyddio teitl 'Tirweddau Cenedlaethol' i'r dyfodol ac yn gwneud gwaith i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn ganolog ym mhob agwedd o'r ardal. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Ymgynghorydd Tirweddau Dynodedig bod gwaith Land Use Consultancy eisoes wedi dod i ben gan fod y canllawiau wedi cael eu llunio. Derbyniwyd bod yr iaith Gymraeg yn ganolog i holl weithrediadau AHNE Llŷn a Chyngor Gwynedd a disgwylir i hyn barhau wrth lunio Cynllun Rheoli newydd sydd yn adlewyrchu hynny. Awgrymwyd datblygu adroddiad effaith ar yr iaith Gymraeg wrth i'r Cynllun gael ei ddatblygu, er mwyn edrych i weld os oes mesurau ychwanegol gellir eu cymryd er mwyn amddiffyn yr iaith a chryfhau trefniadau presennol.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**

## 6. CYNLLUN RHEOLI'R AHNE

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Swyddog AHNE Llŷn.

Eglurwyd bod nifer o gamau angen eu dilyn wrth adolygu'r Cynllun Rheoli. Manylwyd bod y broses hon yn cynnwys:

- Ystyried effeithlonrwydd y Cynllun presennol
- Ystyried yr wybodaeth ddiweddaraf am nodweddion yr ardal
- Cymryd ystyriaeth ac ymgorffori gwybodaeth o gynlluniau a strategaethau perthnasol
- Adolygu gweledigaeth, nodau, amcanion a pholisïau'r cynllun
- Creu Cynllun gweithredu newydd ar gyfer cyfnod y Cynllun Rheoli
- Adolygu'r Asesiad Amgylcheddol Strategaeth a Rheoliadau Cynefinoedd.

Ymhelaethwyd bydd Cynllun Rheoli Drafft yn cael ei rannu gyda thrigolion yr AHNE yn ogystal ag asiantaethau gyda'r cyfle i roi sylwadau ar ei gynnwys. Pwysleisiwyd bod gan y Cyd-bwyllgor rôl ymgynghorol drwy gydol y broses a bydd sylwadau trigolion yn cael eu cynnwys mewn adroddiad er ystyriaeth y Cyd-bwyllgor.

Atgoffwyd mai un o gamau cychwynnol adolygu'r Cynlluniau Rheoli yw asesu cyflwr nodweddion amrywiol er mwyn deall os oes newidiadau wedi digwydd yn ystod y cyfnod blaenorol. Manylwyd bod Adroddiad o Gyflwr yr AHNE wedi cael ei gomisiynu yn 2021

a bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn casglu gwybodaeth leol fwy diweddar er mwyn ychwanegu at yr adroddiad hwn er mwyn cynorthwyo gyda'r broses o ddatblygu Cynllun Rheoli.

Tynnwyd sylw at rinweddau AHNE Llŷn fel diffiniwyd wrth greu'r Cynllun Rheoli blaenorol, gan nodi nad yw'r rhain yn agweddau sydd yn debygol o newid gan eu bod yn greiddiol i'r ardal. Manylwyd na fydd y rhinweddau yn cael eu haddasu ar gyfer y Cynllun Rheoli newydd, gan nodi eu bod yn cynnwys:

- Tirlun ac Arfordir Hardd
- Tawelwch ac Amgylchedd glân
- Cyfoeth o fywyd gwyllt a chynefinoedd
- Yr Amgylchedd Hanesyddol
- Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant
- Pobl a chymunedau clos
- Cynnyrch a busnesau lleol
- Mynediad a hawliau tramwy

Adroddwyd bod gweledigaeth hir dymor yr AHNE wedi dyddio erbyn hyn a bod gweledigaeth addasedig wedi cael ei lunio i lywio'r AHNE hyd at 2050. Manylwyd mai'r weledigaeth ddiwygiedig hon yw:

> "Ardal o dirlun ac arfordir hardd gyda bywyd gwyllt cynhenid yn ffynnu, lefel isel o lygredd amgylcheddol ac amrywiaeth o gyfleon mynediad a chyhoeddus. Adeiladau a nodweddion hanesyddol mewn cyflwr da, busnesau lleol yn llwyddo a chymunedau Llŷn yn cynnal yr iaith a'r diwylliant Cymreig".

Cadarnhawyd ei fod yn bwysig adolygu polisïau'r Cynllun Rheoli gan nodi bydd rhai o'r polisïau hyn yn cael eu cyflwyno i'r Cyd-bwyllgor er mwyn ystyried addasiadau priodol. Nodwyd hefyd gall polisïau newydd gael eu creu a bydd y rhain hefyd yn cael eu cyflwyno i'r Cyd-bwyllgor.

Adroddwyd bydd amserlen ddrafft o'r broses o ddatblygu Cynllun Rheoli yn cael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor mewn cyfarfod ym mis Ebrill 2025.

Gofynnwyd i'r Aelodau i ddod i gyswllt gyda'r swyddogion os ydynt yn ymwybodol o unrhyw fater sydd yn effeithio ar rinweddau AHNE Llŷn a chynnig syniadau am brosiectau a all fynd i'r afael o'r heriau hynny.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:

Trafodwyd y weledigaeth ddiwygiedig hyd at 2050 gan awgrymu'r geiriad canlynol ar ei gyfer:

> "...Adeiladau a nodweddion hanesyddol mewn cyflwr da, busnesau lleol yn llwyddo a chymunedau AHNE Llŷn yn cynnal a chryfhau'r iaith Gymraeg a'i diwylliant."

Ymhelaethwyd ar y pwysigrwydd o sicrhau bod cynefinoedd bywyd gwyllt hefyd yn cael eu crybwyll o fewn y weledigaeth er mwyn sicrhau ei fod yn cael ystyriaeth hirdymor.

Teimlwyd bod nifer o faterion llosg y Cynllun Rheoli blaenorol yn parhau i fod yn berthnasol wrth ddatblygu Cynllun Rheoli newydd. Nodwyd pwysigrwydd sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei gwarchod o fewn polisïau'r Cynllun Rheoli er gryfhau i'r dyfodol. Nodwyd hefyd ei fod yn bwysigrwydd ystyried unrhyw faterion llosg sydd ddim wedi cael

eu datrys o fewn cyfnod y Cynllun Rheoli blaenorol er mwyn asesu os oes modd eu cyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun newydd o gysidro adnoddau a chapasiti'r uned AHNE.

**PENDERFYNIAD**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
- **Diwygio geiriad y weledigaeth hir dymor addasedig fel a ganlyn, a'i dderbyn:**
    - Ardal o dirlun ac arfordir hardd gyda bywyd gwyllt cynhenid a'u cynefinoedd yn ffynnu, lefel isel o lygredd amgylcheddol ac amrywiaeth o gyfleon mynediad a chyhoeddus. Adeiladau a nodweddion hanesyddol mewn cyflwr da, busnesau lleol yn llwyddo a chymunedau AHNE Llŷn yn cynnal a chryfhau yr iaith Gymraeg a'i diwylliant".
- **Cylchredeg Adroddiad o Gyflwr yr AHNE (2021) gyda'r Aelodau gan nodi bod y wybodaeth o fewn yr adroddiad wedi dyddio ychydig erbyn hyn.**
- **Rhoi ystyriaeth i'r Cynllun Rheoli presennol a phynciau llosg sydd heb gael eu datrys yn y cyfarfod nesaf.**

Dechreuodd y cyfarfod am 4.00yh a daeth i ben am 5.10yh

________________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Gorffennaf 2il 2025 |
| **TEITL** | Ffermio Bro |
| **PWRPAS** | Gwybyddu Aelodau |
| **AWDUR** | Swyddog Gwasanaeth AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth, ethol cynrychiolydd. |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am gynllun grant amgylcheddol newydd – Ffermio Bro - sydd yn weithredol yn ardaloedd Tirweddau Dynodedig Cymru.

## 2.0 FFERMIO BRO

2.1 Mae'r Tirweddau Dynodedig, sef y Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yn fannau arbennig o ran golygfeydd, natur, diwylliant a treftadaeth. Mae'r Tirweddau wedi cydweithio hefo Llywodraeth Cymru i ddatblygu Ffermio Bro, rhaglen arloesol i gynorthwyo ffermwyr i warchod natur a'r amgylchedd – tra yn cefnogi busnesau a chymunedau gwledig.

2.2 O dan y cynllun Ffermio Bro mae pob Parc ac AHNE wedi derbyn cronfa ariannol a gall ffermwyr wneud cais yn uniongyrchol i'r awdurdod perthnasol. Mae Ffermio Bro yn cefnogi gweithgareddau sydd yn llesol i natur a bioamrywiaeth, gall hyn gynnwys mesurau fel creu/adfer waliau cerrig a gwrychoedd neu dulliau naturiol o reoli llifogydd ayb.

2.3 Mae Ffermio Bro yn wahanol i gynlluniau y gorffennol oherwydd mai dim ond yn y Tirweddau Dynodedig y mae yn weithredol ac fod pwyslais ar gydweithio. Anelir i ariannu gweithgareddau ar draws amryw o ffermydd er cael ardrawiad ehangach ar y tirlun. Nid yw hynny o reidrwydd yn golygu gweithio gyda ffermydd cysylltiol ond yn hytrach fod nod a gweithredu tebyg dros ardal benodol.

2.4 Mae Ffermio Bro yn gynllun sy'n paratoi ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CffC/ SFS). Ni fydd cymryd rhan yn Ffermio Bro yn amharu ar ran ffermwyr i fod yn rhan o'r CFfC a bydd unrhyw gynefin

sydd wedi ei greu fel rhan o Ffermio Bro yn cyfri tuag at ofynion cynefin cyffredinol.  Bydd cyfraddau grant Ffermio Bro yn debyg i gynlluniau eraill Llywodraeth Cymru ond gellir hefyd ariannu prosiectau arbennig ar raddfa uwch.

## 3.0 GWEINYDDU FFERMIO BRO

3.1 Bydd y Cynllun yn cael ei weinyddu gan Barc Cenedlaethol Eryri mewn cydweithrediad hefo yr Uned AHNE yma yn Llŷn. Mae trefniant tebyg yn ei le ar gyfer AHNE Môn. Bydd y ceisiadau symlaf yn cael eu hystyried gan swyddogion tra bydd ceisiadau mwy cymhleth/ o werth uwch yn cael eu hystyried gan Banel sydd yn y broses o gael ei sefydlu. Mae cais wedi ei wneud i gael un aelod o Gydbwyllgor yr AHNE ar y Panel.

3.2 Mae ymdrechion wedi eu gwneud i godi ymwybyddiaeth am y cynllun trwy yr Undebau, mudiadau amaethyddol/ cefn gwlad a thrwy'r wasg a chyfryngau cymdeithasol. Rydym wedi rhoi sylw i'r cynllun yn Llygad Llŷn ac yn ddiweddar yn Sioe Nefyn. Eisioes rydym wedi derbyn cryn ddidorddeb yn y cynllun yma yn Llŷn.

3.3 Bydd y swyddog cynghori Ffermio Bro lleol – Iwan Ifan yn bresennol yn y cyfarfod i roi diweddariad ar y cynllun.

## 4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Derbyn yr wybodaeth.

4.2 Ethol cynrychiolydd o'r Cydbwyllgor i eistedd ar y Panel Ffermio Bro.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Gorffennaf 2il 2025 |
| **TEITL** | Diweddariad ar brosiectau cyfalaf AHNE Llŷn |
| **PWRPAS** | Darparu gwybodaeth i aelodau |
| **AWDUR** | Swyddog Prosiectau AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae’r adroddiad hwn yn cynnwys diweddariad am brosiectau cyfalaf AHNE Llŷn. Mae’r prosiectau hyn yn cael ei hariannu trwy gynllun grant gan Llywodraeth Cymru sef Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy (TCLC). Dim ond Tirweddau Dynodedig Cymru, sef Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, sydd yn derbyn y cyllid hwn.

1.2 Mae prosiectau cyfnod cyntaf y cynllun TCLC, sef 2022 i 2025, bellach wedi dod i ben. Mae’r adroddiad hwn yn cynnwys trosolwg o’r cynlluniau hynny a blas o beth sydd ar y gweill ar gyfer y cyfnod nesaf – 2025 i 2027.

## 2.0 THEMÂU Y PROSIECTAU CYFALAF

2.1 Gosodwyd themâu gan Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau cyfalaf oedd yn rhan o gynllun TCLC 2022-25 sef:

- Bioamrywiaeth ac adfer natur
- Dadgarboneiddio
- Cymunedau gwydn a gwyrdd
- Twristiaeth Gynaliadwy

2.2 Roedd gan AHNE Llŷn brosiectau o dan y pedwar pennawd uchod ac mae’r Uned wedi bod yn darparu adroddiadau i’r Cydbwyllgor yn flynyddol gyda gwybodaeth am y prosiectau. Hefyd mae gwybodaeth wedi ei gynnwys yn y newyddlen Llygad Llŷn, mae copi wedi ei anfon i aelodau ac yn cael ei rannu yn lleol.

## 3.0 DIWEDDARIAD AR BROSIECTAU 2022-25

3.1 Roedd y prosiectau hyn y dod i ben yn mis Mawrth eleni. Isod gwelir braslun o'r hyn a wnaed ym mlwyddyn olaf y cynllun:

- **Tiroedd Comin** – gwnaed gwaith pellach ar diroedd comin Y Foel Gron, Horeb a Rhos Botwnnog. Mae'r gwelliannau wedi cynnwys gwaith gwella mynediad, trin rhywogaethau ymledol, ail gyflwyno pori, adfer wal garreg hanesyddol a gosod ffenes newydd oamgylch Ffynnon Fyw.
- **Coed cynhenid** – roedd hwn yn brosiect dwy flynedd. Roedd y gwaith adnabod safleoedd wedi ei wneud yn 2023-24 ac yn ystod gaeaf 2024-5 roedd y gwaith plannu ei hun yn cael ei wneud. Plannwyd oddeutu 5,000 o goed mewn cyfanswm ar amrywiol safleoedd yn, a gerllaw, yr AHNE
- **Rhywogaethau ymledol estron** - mae planhigion estron megis jac y neidiwr a changlwm tsapanaeaidd a rododendron yn broblem ar draws Llŷn, gyda sgil-effeithiau difrifol ar fioamrywiaeth. Yn dilyn arolygon yn 2023-24 gwnaed llawer o waith i drin a gwaredu planhigion o'r math yma yn 2024-25.
- **Y Ganolfan, Llithfaen** – dyma'r prosiect TCLC mwyaf oedd yn rhedeg dros y tair blynedd. Llwyddwyd i ddenu cyfraniad ariannol sylweddol at y prosiect o gronfa Ffyniant Bro, Llywodraeth y DU. Dechreuodd y gwaith adnewyddu yn Ionawr 2024 a chwblhawyd fis Hydref 2024 a chafwyd ail agoriad swyddogol fis Tachwedd.
- **Maes Parcio chwarel Llanbedrog** – prosiect dan y thema o Twristiaeth Gynaliadwy oedd hwn. Roedd y safle yn flêr a rhannau wedi tyfu yn wyllt. Gwnaed nifer o welliannau amgylcheddol yn cynnwys ail-wneud gwyneb y maes parcio, symud cerrig, torri tyfiant a phlannu coed.

## 4.0 PROSIECTAU AR Y CYD

4.1 Yn ogystal â phrosiectau penodol i AHNE Llŷn mae'r ardal wedi elwa o brosiectau sydd ar y cyd gyda Tirweddau Dynodedig eraill. Mae gwybodaeth am y prosiectau hyn i'w weld yn Llygad Llŷn ond hefyd rhoddir diweddariad yn y cyfarfod:

- Terfynau Traddodiadol
- Yr Awyr Dywyll
- Pecyn Addysg Tirlun

## 5.0 PROSIECTAU 2025-27

5.1 Ar ddechrau 2025 cafwyd manylion am gyfnod pellach o ariannu cyfalaf trwy Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy gan Lywodraeth Cymru. Cyfnod o ddwy flynedd oedd y tro yma, ar yr un themau a'r cynllun blaenorol – ond mae mwy o bwyslais ar adfer natur a dadgarbodeiddio y tro hwn.

5.2 Cyflwynwyd cynigion ar ran AHNE Llŷn yn unol â'r drefn a derbyniwyd cefnogaeth ar gyfer y cynlluniau canlynol:

- Plannu coed cynhenid yn yr AHNE
- Gwaredu rhywogaethau ymledol estron
- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Abergeirch
- Dadgarboneiddio neuaddau/ canolfannau pentref

5.3 Bydd yr Uned AHNE yn gweithio ar y prosiectau hyn dros y ddwy flynedd nesaf gan sicrhau fod y prosiectau yn cael eu gwireddu yn unol â'r gofynion a'r cyllidebau.

## 6.0 ARGYMHELLIAD

6.1 Derbyn yr wybodaeth.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | 2il o Orffennaf 2025 |
| **TEITL** | Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy |
| **PWRPAS** | Diweddaru Aelodau |
| **AWDUR** | Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynir yr adroddiad hon er gwybodaeth, am sefyllfa'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy hyd yma a datblygiadau sydd ar y gweill yn ymwneud â hi.

## 2.0 GWARIANT 2024/25

2.1 Roedd **£100,000** ar gael ar gyfer Gronfa y Ddatblygu Cynaliadwy y flwyddyn ariannol ddiwethaf ac fe lwyddwyd i hawlio yr holl arian.

2.2 Dyma rhestr o'r prosiectau a gefnogwyd :-

- CDC 24.1 RSPB Morfa Dinlle £2,911
- CDC 24.2 1st mate Amgueddfa Morwrol £5,895
- CDC 24.3 Cydio yn awen Enlli £3,000
- CDC 24.4 Cae chwarae Llanbedrog £29,012
- CDC 24.5 Melin Daron £18,962
- CDC 24.6 Antur Aelhearn £1,463
- CDC 24.7 Menter Rabar £2,767
- CDC 24.8 Menter y Tŵr £21,850
- CDC 24.11 Hysbysfwrdd Tudweiliog £1,485
- CDC 24.12 RSPB Porth Ceiriad £2,652

## 3.0 GWARIANT 2025/26

3.1 Roedd **£95,000** ar gael ar gyfer y Gronfa y Ddatblygu Cynaliadwy ar ddechrau y flwyddyn ariannol yma (2025/26). Rydym yn ffyddiog y bydd y cwbl wedi ei hawlio erbyn mis Mawrth 2026.

3.2 Dyma rhestr o'r prosiectau sydd wedi eu cefnogi hyd yma :-

- CDC 25.1 Bws Fflecsi Llŷn £25,000
- CDC 25.2 Cae chwarae Llanbedrog £22,150
- CDC 25.3 Llwybrau aml ddefnydd Nefyn £11,400
- CDC 25.4 1st mate Amgueddfa Morwrol £4,600
- CDC 25.5 Pŵer solar Enlli £9,532
- CDC 25.6 Clwb rhwyfo Porthdinllaen £750
- CDC 25.7 Datgarboneiddio neuadd Rhiw £2,250
- CDC 25.8 Gardd Antur Aelhearn £1,000

3.3 Hyn yn hyn mae un cyfarfod o’r panel grantiau wedi ei gynnal a bydd angen un arall i gwblhau glustnodi y cyllid sydd yn weddill.

## 4.0 Y GRONFA YN 2026-27

4.1 Mae cadarnhad wedi ei dderbyn fod cyllid o **£95,000** ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf hefyd (2026/27).

4.2 Yn unol â’r canllawiau mwyaf diweddar gan Llywodraeth Cymru bydd yn rhaid rhoi blaenoriaeth i brosiectau sydd yn cyd fynd a’r themâu Adfer Natur a Dad-garboneiddio. I gyd fynd â’r canllawiau bydd rhaid i **60%** o’r cyllid gael eu glustnodi tuag y themâu yma.

4.3 Bydd y canllawiau newydd yn dod i rym mis Ebrill 2026 ac maent hefyd yn cynnwys newidiadau o ran aelodaeth y panel grantiau. Byddwn yn adrodd ymhellach ar hyn yn y cyfarfod nesaf o’r Cydbwyllgor a gynhelir yn mis Tachwedd.

4.4 Rydym yn rhagweld y bydd cyrraedd y targed newydd yn sialens ag yn golygu newid pwyslais yn y prosiectau sydd wedi eu hariannu yn y gorffennol. I’w nodi - gall lleihau ôl troed carbon adeiladau cymunedol/elusennol gynnwys mesurau fel ffenestri dwbl, insiwleiddio a paneli solar.

## 5.0 ARGYMHELLIAD

5.1 Derbyn y wybodaeth uchod.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Gorffennaf 2il 2025 |
| **TEITL** | Adolygu Cynllun Rheoli'r AHNE |
| **PWRPAS** | Gwybyddu aelodau |
| **AWDUR** | Swyddog Gwasanaeth AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth bellach am adolygu Cynllun Rheoli'r AHNE. Yn y cyfarfod blaenorol o'r Cydbwyllgor, a gynhaliwyd ar Dachwedd y 26ain 2024, roedd dau adroddiad ar y Cynllun Rheoli – un yn ymwneud â'r cefndir a'r ail yn ymwneud â'r camau i'w cymryd a'r Weledigaeth.

## 2.0 CANLLAW AR ADOLYGU CYNLLUNIAU RHEOLI

2.1 Fel a nodwyd eisioes bydd angen dilyn y Canllaw sydd wedi ei gyhoeddi ar baratoi ac adolygu Cynlluniau Rheoli. Mae'r Canllaw hwn wedi ei ddiweddaru gan gwmni Land Use Consultants ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddiweddar.

2.2 Roedd Keith Davies, Prif Gynghorydd Tirweddau Dynodedig o Cyfoeth Naturiol Cymru yn bresennol yn y cyfarfod blaenorol i sôn mwy am y Canllaw, gellir cael mwy o wybodaeth yn y cofnodion. Mae'r Canllaw yn ddogfen swmpus a chafwyd ar ddeall fod crynodeb am gael ei baratoi ond nid yw wedi ei gyhoeddi hyd yma. Gellir gweld copi llawn o'r Canllaw drwy ddilyn y linc canlynol: Designated Landscape Management Plan Guidance - Landscapes Wales

2.3 Yn fras mae'r Canllaw yn nodi fod angen dilyn y camau canlynol wrth adolygu'r Cynllun:

- Asesu yr wybodaeth ddiweddaraf am nodweddion yr ardal (cyflwr)
- Ystyried ac ymgorffori gwybodaeth o gynlluniau a strategaethau perthnasol
- Adolygu Nodau/ Amcanion a Pholisiau'r Cynllun
- Creu cynllun gweithredu newydd ar gyfer cyfnod y Cynllun
- Adolygu yr Asesiad Amgylcheddol Strategol/ Rheoliadau Cynefinoedd

2.4 Pwysleisir pwysigrwydd ymgynghori gyda thrigolion yr AHNE a rhanddeiliad yn ystod yr adolygiad. Mae gan y Cydbwyllgor rôl i chwarae yma gan fod cynrychiolaeth dda o wahanol ardaloedd yr AHNE a sefydliadau a mudiadau perthnasol yn aelodau.

## 3.0 CYFLWR YR AHNE

3.1 Un o'r camau cyntaf o ran adolygu Cynllun Rheoli yw asesu cyflwr gwahanol nodweddion er mwyn cael darlun o'r sefyllfa a gweld os oes newidiadau wedi digwydd yn ddiweddar. Gall y newidiadau hyn fod yn rhai er gwell neu waeth.

3.2 Comisiynwyd Adroddiad o Gyflwr AHNE Llŷn gan yr Uned AHNE yn 2021. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am gyflwr gwahanol nodweddion AHNE Llŷn a'r pwysau arnynt. Cafodd crynodeb ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor yn y gorffennol ac yn dilyn cais yn y cyfarfod diwethaf fe yrrywd copi o'r ddogfen gyfan i'r holl aelodau ar e-bost.

3.3 Derbyniwyd ymateb gan rai aelodau y Cydbwyllgor a Chyfoeth Naturiol Cymru ar yr Adroddiad o Gyflwr yr AHNE (2021), gwelir crynodeb o'r sylwadau hynny isod:

- Pam fod yr adroddiad yn uniaith Saesneg ?
- Mae diffyg gwybodaeth am rhai materion - yn benodol yn ymwneud gyda newid hinsawdd, tirlun, llesiant, llygredd a bioamrywiaeth.
- Does dim cyfeiriad at y Cynllun Rheoli Traethlin.
- Mae gwybodaeth mwy diweddar ar gael ar rai materion bellach e.e amaethyddiaeth.
- Byddai yn ddefnyddiol gweld sut mae cynlluniau eraill yn cydblethu fel rhan o gynnwys y Cynllun Rheoli diwygiedig – Y Cynllun Datblygu Lleol, Asesiad Llesiant Gwynedd a Môn, Datganaid Ardal Gogledd Orllewin ayb.
- Angen i'r Adroddiad Cyflwr gyda-fynd â'r Canllaw newydd sydd wedi ei gomisiynnu gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

3.4 Ar sail yr ymateb y bwriad yw trefnu i addasu a diweddaru yr Adroddiad Cyflwr i gael darlun mwy cywir o'r ardal a'r pwysau ar yr amgylchedd. Hefyd bydd fersiwn Gymraeg a Saesneg o'r Adroddiad yn cael ei baratoi. Anelir i gael yr Adroddiad hon wedi ei chwblhau erbyn y cyfarfod nesa o'r Cydbwyllgor a gynhelir yn mis Tachwedd 2025.

## 4.0 RHINWEDDDAU ARBENNIG

4.1 Roedd gwybodaeth am y rhinweddau arbennig oedd wedi eu diffinio ar gyfer AHNE Llŷn wedi ei ddarparu i'r cyfarfod blaenorol. Ni chafwyd sylwadau ar y diffiniadau hyn ac felly bwriedir eu cario ymlaen i'r Cynllun diwygiedig.

## 5.0 YR WELEDIGAETH

5.1 Hefyd cyflwynwyd Gweledigaeth ddiwygiedig ar gyfer yr AHNE (yn seiliedig ar y flwyddyn 2050) yn y cyfarfod yn Nhachwedd 2024. Bu cryn drafodaeth ar yr Weledigaeth ac awgrymwyd un newid, sef cynnwys "a'u cynefinoedd". Gyda'r newid hwn derbyniwyd yr Weledigaeth ddiwygiedig ar gyfer ei chynnwys yn y diwygiedig drafft Cynllun. Mae'r Weledigaeth yn awr yn darllen fel â ganlyn:

**ARDAL O DIRLUN AC ARFORDIR HARDD GYDA BYWYD GWYLLT CYNHENID A'U CYNEFINOED YN FFYNNU, LEFEL ISEL O LYGREDD AMGYLCHEDDOL AC AMRYWIAETH O GYFLEON MYNEDIAD CYHOEDDUS. ADEILADAU A NODWEDDION HANESYDDOL MEWN CYFLWR DA, BUSNESAU LLEOL YN LLWYDDO A CHYMUNEDAU LLŶN YN CYNNAL YR IAITH A'R DIWYLLIANT CYMREIG**.

## 6.0 MATERION LLOSG

6.1 Fel cam cychwynnol yn y broses o adolygu'r Cynllun gofynwyd i aelodau yn y cyfarfod blaenorol am eu barn o ran materion llosg sydd yn berthnasol i rinweddau yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn Llŷn. Hefyd gofynwyd am awgrymiadau o ran gweithredoedd neu brosiectau allai fynd i'r afael â'r sialensau sydd yn wynebu'r rhinweddau hyn. Ni fu llawer o drafodaeth ar hyn yn y cyfarfod (gweler y cofnodion am fwy o fanylion).

6.2 Fel dilyniant, pan yn anfon yr Adroddiad o Gyflwyr yr AHNE allan yn Ionawr 2025 bu i'r Tîm AHNE anfon linc i'r Cynllun Rheoli presennol a chais am ymateb i ddau gwestiwn penodol. Croesawyd i aelodau gysylltu gyda'r tîm AHNE gyda sylwdau drwy drefnu cyfarfod neu anfon ebost neu lythyr. Y cwestiynnau a ofynwyd oedd:

- Beth, yn eich barn chwi, yw'r heriau amgylcheddol, economaidd a

chymdeithasol (yn cynnwys diwylliannol) sy'n wynebu'r ardal yn y 20-25 mlynedd nesaf ?

- Pa weithredoedd posibl allai helpu i fynd i'r afael a'r heriau hyn ?

6.3 Derbyniwyd nifer o ymatebion i'r neges a'r apêl am sylwadau, diolch i bawb wnaeth ymateb. Mae crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd i'w gweld yn **Atodiad 1.** Roedd rhai o'r ymatebion yn ymwneud â materion cyffredinol, mae ymateb i'r rheiny i'w weld isod:

- Credu y cytunwyd fod aelodau unigol eisiau bod yn rhan o'r drafodaeth ac mi fyddai yn haws os gellir gweld sylwadau ein gilydd – felly cynhwyswyd e-bost pawb yn unigol er mwyn cael trafodaeth agored.

  *Y rheswm dros beidio cynnwys e-byst pawb yn neges gwreiddiol oedd oherwydd materion diogelu data.*

- Dymuno cael darlun cliriach o strwythur yr AHNE o fewn y Cygnor Sir e.e ydi'r "Uned AHNE" yr un peth a'' Tîm ? Pwy ydi'r unigolion sydd o fewn y Tîm neu/a'r Uned AHNE ? Beth ydi perthynas y Tîm neu/a'r Uned AHNE efo adrannau eraill y Cyngor ?

  *Mae'r Uned AHNE yn rhan o'r Gwasnaeth Polisi Cynllunio, Tirwedd a Natur yn yr Adran Amgylchedd. Tîm yr AHNE yw staff yr Uned - mae 4 aelod o staff – Bleddyn Jones (Swyddog Gwasanaeth AHNE), Morus Dafydd (Swyddog Prosiectau), Kevin Roberts (Warden Cefn Gwlad), Elin Hughes (Swyddog Gweithgareddau).*

- Yn lle a sut mae'r cynlluniau blaenoriaeth, sydd wedi eu hadnabod yn y Cynllun Datblygu Ardal NI yn plethu i gynlluniau'r AHNE?

  *Mae'r Tîm AHNE wedi cyfrannu at y Cynlluniau Ardal Ni ac yn ymwybodol o'u cynnwys. Hefyd byddent yn cael eu hystyried wrth adolygu'r Cynllun Rheoli.*

6.4 Bydd y Tîm yr AHNE yn rhoi ystyriaeth i'r holl sylwadau sydd wedi eu derbyn wrth symud ymlaen gyda'r gwaith i adolygu'r Cynllun Rheoli.

## 7.0 Y CYNLLUN PRESENNOL

7.1 Er fod rhai elfennau o'r Cynllun Rheoli presennol wedi dyddio mae nifer o nodau a pholisiau'r Cynllun yn parhau yn berthnasol. Yn fuan bydd yr Uned AHNE yn dechrau y gwaith o adolygu nodau/amcanion a pholisiau y Cynllun Rheoli presennol ac yn awgrymu diweddaru/ newid rhai agweddau er ymateb i wybodaeth newydd a/ neu newid mewn amgylchiadau a'r sylwadau sydd wedi

eu derbyn hyd yma. Efallai hefyd y bydd raid cynnwys polisiau newydd ychwanegol. Bydd cyfarfod o'r Cydbwyllgor yn cael ei drefnu i ystyried yr nodau/ amcanion a pholisiau drafft.

7.2 Mae'r Cynllun presennol hefyd yn cynnwys Rhaglen Weithredu (rhaglen waith 5 mlynedd) sydd yn cynnwys llawer o weithgareddau unigol. Mae'r gweithgareddau hyn yn amrywio o bethau syml i weithroedd mwy ac oll yn cyfrannu tuag at gyflawni nodau/polisiau'r Cynllun. Nid gweithgareddau i'r Uned AHNE yn unig oedd y rhain, roedd rhai yn berthnasol i Adrannau eraill y Cyngor neu sefydliadau a chyrff fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Scottish Power ayb.

7.3 Mae'r rhan fwyaf o'r materion yn y Cynllun Gweithredu wedi ei gwireddu ond nid y cwbl. Nid oes dadansoddiad o'r holl Gynllun Gweithredu wedi ei baratoi ond gellir gwneud hynny os yw aelodau'r Cydbwyllgor yn credu y byddai yn ddefnyddiol ac yn ddefnydd da o adnoddau.

**8.0 ARGYMHELLIAD**

8.1 Derbyn yr wybodaeth.

8.2 Cefnogi'r bwriad i ddiweddaru'r Adroddiad Cyflwr yr AHNE a pharhau â'r gwaith i adolygu'r Cynllun Rheoli.

| **ATODIAD 1** | |
|---|---|
| **Sylwadau a dderbyniwyd ar yr ymgynghoriad cychwynnol<br>Adolygu Cynllun Rheoli'r AHNE** | |
| **Sylwadau gan** | **Sylw** |
| **Aelod yn cynrychioli Cyngor Cymuned Tudweiliog** | Credu y cytunwyd fod aelodau unigol eisiau bod yn rhan o'r drafodaeth ac mi fyddai yn haws os gellir gweld sylwadau ein gilydd – felly cynhwyswyd e-bost pawb yn unigol er mwyn cael trafodaeth agored. |
| | Dymuno cael darlun cliriach o strwythur yr AHNE o fewn y Cyngor Sir e.e ydi'r "Uned AHNE" yr un peth a'' Tîm ? Pwy ydi'r unigolion sydd o fewn y Tîm neu/a'r Uned AHNE ? Beth ydi perthynas y Tîm neu/a'r Uned AHNE efo adrannau eraill y Cyngor ? |
| | Yn lle a sut mae'r cynlluniau blaenoriaeth, sydd wedi eu hadnabod yn y Cynllun Datblygu Ardal Ni yn plethu i gynlluniau'r AHNE ? |
| | Pam fod yr adroddiad sydd wedi ei chyflwyno yn uniaith Saesneg ? |
| | Mae angen rhoi ystyriaeth i dystiolaeth newydd y prosiect Perthyn a'r Arolwg Tai ac Iaith Llangwnnadl 2024 sydd wedi profi fod sefyllfa'r Gymraeg yn lawer gwaeth nac mae'r ystadegau swyddogol yn ei ddangos. |
| | Mae'n amlwg mai ein dyletswydd pennaf dros y 25 mlynedd nesaf ydi cefnogi Nod Strategol ein Cynghorau Cymuned a Thref a Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru drwy sicrhau y bydd bob polisi, cynllun gweithred a threfn yn yr AHNE yn arwain at fwy o siaradwyr, aelwydydd a defnydd y Gymraeg erbyn 2050. |
| **Aelod yn cynrychioli Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (YDCW/ CPRW)** | **Y Prif sialensau:**<br><br>• Cael cydbwysedd rhwng cefnogi yr economi dwristaidd tra yn cynnal a gwella rhinwedau amgylcheddol, lles cymdeithasol, diwylliant a'r iaith.<br>• Sicrhau fod rhinweddau amgylchedd yr AHNE a chryfderau yr economi yn cael eu cynnal yn wyneb newid hinsawdd<br>• Rhannu budd economiadd y diwydiant ymwelwyr yn fwy cyfartal drwy'r gymuned |
| | **Camau posibl i ymateb i'r heriau:**<br><br>• Talu mwy o sylw i fesurau i wella (yn ogystal â gwarchod) yr AHNE<br>• Cynyddu ymdrechion ac adnoddau i godi ymwybyddiaeth am bolisiau'r Cynllun Rheoli<br>• Harneisio capasiti gwirfoddoli y gymuned yn fwy trwylwyr a chynyddu ymdeimlad o berchnogaeth gymunedol o fewn yr AHNE |

| | |
|---|---|
| | • Cynyddu adnoddau ac ymdrechion i fonitro, gorfodi a lleihau effaith gweledol carafanau ar y tirlun.<br>• Rheoleiddio dyluniad ag effaith gweledol gwaith adnewyddu tai ac estyniadau tra yn hyrwyddo gwelliannau cynaliadwy i'r stoc dai bresennol pan fydd hynny yn ymarferol.<br>• Oherwydd y cyfyngiadau ymarferol a gweledol ar gynyddu creu ynni adnewyddol a capasiti'r grid, cefnogi mwy o bwyslais ar ostwng defnydd o ynni yn lleol trwy insiwleiddio (yn arbennig waliau) a thrydaneiddio systemau gwresogi a thrafnidiaeth.<br>• Lobio dros mwy o gefnogaeth ac adnoddau i adfer a chynnal mwynderau hamdden lleol, yn cynnwys y rhwydwaith llwybrau.<br>• Cynyddu cynrychiolaeth o fusnesau twristiaeth ar y Cydbwyllgor Ymgynghorol. |
| **Aelod yn cynrychioli Ward Nefyn ar Gyngor Gwynedd** | Cytuno hefo llawer o sylwadau gan yr aelod YDCW ac eithrio:<br><br>Trydaneiddio gwresogi a trafnidiaeth – Credu na llosgi mwy o lo sydd ei angen i gael trydan rhad a rhoi yr ofnau am newid hinsawdd o'r neilltu. Bwyd i blanhigion ydi C02 ac mae na fwy fwy o wyddonwyr sydd yn flaengar yn y maesydd Thermal dynamics / physeg a daeareg yn tystiolaethu i hyn. Gweler Professor William Happer, John Clauser phd physic *Nobel prize for physics* 2023, gweler *C02 COALLITION* am restr o dros fil o wyddonwyr. Gan gwledydd Prydain mae'r biliau trydan uchaf yn y byd a mae Dilyn *net zero* am yrru fwy fwy o bobl i dlodi tanwydd a thlodi enbyd wrth i'r gweithfeydd gau oherwydd costau ynni. |
| | Mae angen rhoi y Gymraeg yn flaengar yn ein polisiau yn enwedig o gofio fod y cynghorau cymuned wedi dynodi'r ardal yn ardal o arwyddocad ieithyddol dwysedd uwch. |
| | Rhaid gwarchod buddianau y fferm deuluol gan rhoi stop ar ddynodi 20% o'r tir amaeth ar gyfer coedwigaeth a Bioamrywiaeth. Cawn fod *hedge fund managers* yn prynu tir Cymru fesul fferm ar gyfer *carbon offset* . Gwagio cefn gwlad yi'r nod hirdymor ac yn debycach i 'r *Highland clearences* a cau tiroedd commin yr oes a fu. Bwyd rhad ag iach mae pobl ei angen a tydi lleihau y tir ar gyfer da byw a cnydau ddim am gyfranu at ddim heblaw am lwgu. Dilyn polisiau Stalin, Mao a Pol Pot ac fe ddaw newyn yn ei sgil. |
| | Rhaid i ni roi mwy o bwyslais ar warchod y tai / bythynod traddodiadol a fod unrhyw wellianau ac addasiadau / estyniadau yn gweddu'r adeilad traddodiadol . |
| **Aelod yn cynrychioli Cyngor Cymuned Tudweiliog** | Cytuno hefo sylwadau gan yr aelod YDCW a rhan fwyaf o sylwadau Aelod dros Ward Nefyn.<br><br>O ran cael cydbwysedd o rhwng yr economi ymwelwyr a chynnal a gwella rhinweddau amgylcheddol yr ardal - yn falch i ddweud fod y cynllun Croeso Cymraeg sydd wedi ei gynnwys ar restr Blaenoriaeth "Cynllun Datblygu Ardal Ni" yn gwneud hyn yn union. |

| | |
|---|---|
| | Erbyn hyn mae'r wefan [croesocymraeg.cymru](croesocymraeg.cymru) sydd yn **gam cyntaf y cynllun** wedi ei chyhoeddi mewn partneriaeth efo GwyrddNi, Cymunedoli a Menter Iaith Gwynedd a chefnogaeth cynllun Grymuso Gwynedd Menter Mon. Bydd yn cael ei ddatblygu ymhellach efo mewnbwn gan bawb sydd yn rhannu gweledigaeth Cymraeg 2050. Felly gobeithio y bydd hyn yn cynnwys Tîm yr AHNE, Uned yr AHNE a'r Cydbwyllgor. Mae'r wefan wedi ei chyhoeddi yn uniaith Gymraeg ond yn defnyddio botwm i gyfieithu i bob iaith ac felly yn cyflwyno Llyn yn Gymraeg i'r byd yn amlieithog. Mae yna lot o hanes a gwybodaeth arni. Cerwch i bori drwyddi a falch o unrhyw sylwadau. Edrych ymlaen at sylwadau yr aelodau o'r pwyllgor sydd yn dysgu Cymraeg i weld sut mae yn gweithio. |
| **Aelod yn cynrychioli Cyngor Cymuned Trefor a Llanaelhaearn** | **Yr heriau sy'n wynebu'r ardal:**<br><br>• Yr brif her yw parhad ein hunaniaeth fel cenedl o bobl sy'n siarad Cymraeg fel iaith gymunedol ac yn cynnal gweithgareddau yn ein hiaith yn yr ardal hon yn wyneb y mewnlifiad, all-lifiad yr ifainc, y cyfryngau eingl-americanaidd, gor-dwristiaeth, hunanoldeb, newidiadau demograffeg ayyb<br>• Her arall yw trosglwyddo ein hetifeddiaeth diwylliannol, ein treftadaeth ffisegol, ein hamgylchedd naturiol hardd yn nannedd difaterwch, newid hinsawdd, erydiad, trychinebau a diffygion cyllid.<br>• Her anodd yw creu amodau fydd yn cynnig potensial i bobl ifainc gallu aros yn eu broydd, trwy ddarparu tai, swyddi o ansawdd iddynt, ynghlwm â newid eu meddylfryd am ein hardal.<br>• Creu partneriaethau cydlynus o cymunedau ia fydd yn sefyll yn gadarn dros AHNE Llŷn, dros yr iaith Gymraeg a'n diwylliant, hanes unigryw. |
| | **Camau posibl i ymateb i'r heriau:**<br><br>• Polisïau cadarn, hyrwyddo di-baid i greu hyder yn ein bro, a galluogi ein trigolion i ymfalchïo yn Llŷn a mynnu aros yma. |
| | **<u>9. Yr Amgylched hanesyddol</u>**<br><br>i) Gyda dros 300 o safleoedd beth am fap a chyldeithiau o gwmpas rai ohonynt? – nod : hyrwyddo'n well ein hanes cyfoethog. Byrddau gwybodaeth /Codau QP<br>ii) ardaloedd cadwraeth – gwir angen arolwg a chamau i atal dirywiad yn ngolwg pentrefi – nid yw *pebbldash*, paneli solar a *heatpumps* ar waliau yn iawn ! Angen sicrhau bod 'ardal cadwraeth' yn golygu hwnna i'r bobl yn yr Adran Cynllunio.<br>iii) mae safleoedd yn gallu cael eu herydu – Tre'r Ceiri. Angen monitro hyn.<br>iv) 9.1.5 – mae angen gwarchod y bythynnod traddodiadol Cymreig sydd yn Llŷn – dylanwadu ar Gynllunio i beidio â chaniatáu newidiadau allanol. AHNE i gyflwyno dadl gref yn erbyn ceisiadau fydd yn golygu colli cymeriad y bythynnod hyn. |

| | |
|---|---|
| | |
| | **<u>10. Yr iaith Gymraeg a'n diwylliant</u>**<br>i) Er bob ymdrech gostwng mae % siaradwyr Cymraeg yn gyson. E.e. Llanaelhaearn 90% yn 1981-70% 2021) Rhaid i'r AHNE fod yn gryf o blaid cadw'r iaith, hyrwyddo i droi'r llanw, i gefnogi gweithgareddau uniaith Gymraeg.<br>ii) gwarchod enwau lleol a sicrhau uniaithrwydd – gwrthod erchylltau megis Trefor Stacks a Whispering Sands !<br>iii)10.2.5 mae angen arolwg cyfoes o'r gweithgareddau, gyda'r nod o'u cefnogi'n ariannol, hyrwyddo, a chynyddu'r ddarpariaeth<br>iv) Rhaid cynnwys to newydd o weithgareddau (e.e. clogsia) a thalentau ifainc – awduron o'r ardal – Llŷr Titus, Mared Llywelyn, Iestyn Tyne, Casia Wiliam i enwi ond ychydig...rhain i ysbrydoli pobl ifanc<br>v) 10.6 cydnabod bod twristiaeth yn cael effaith negyddol ar yr iaith a'r diwylliant – angen mesur a meddwl sut i liniaru'r effaith.<br>vi) polisïau :<br>IP1 : angen i'r AHNE fod yn gyfrifol am gydlynu a hyrwyddo'r rhaglen amrywiol o weithgareddau uniaith; IP2 yn dda<br>IP3 – cyfraniad yr Ecoamgueddfa'n bwysig yma<br>IP4 a IP5- dylai'r AHNE fod ar flaen y gad yn pwysleisio bod y Gymraeg yn hanfodol er mwyn byw bywyd cyflawn yn yr ardal . Fel canlyniad rhaid hyrwyddo pob cyfle i ddysgu'r iaith, ymarfer yr iaith (sesiwn siarad) a'r cynllun 'buddies Cymraeg' ayyb |
| | **<u>11. Pobl a chymdeithas</u>**<br><br>Er twf yn y boblogaeth mae ein cymunedau dan fygythiad. Effaith gor-dwristiaeth – tai haf, llety gwyliau – wedi creu gwasgfa – prinder tai i bobl lleol, tai drud. Tai gwag yn y gaeaf – effaith ar gymdeithasau, gwasanaethau, ysgolion ayyb Demograffeg – pobl hŷn yn creu problemau ychwanegol – iechyd, trafnidiaeth.<br>Traeon o bobl wedi geni tu allan i'r ardal yn dangos maint y broblem mewnlifiad a'r angen i gymathu'r bobl hyn i'r Gymraeg a'n ffordd ni o fyw.<br>Mae polisïau cadarn yn y adran hon – angen diweddaru ambell un – e.e.CP4 – i gynnwys effaith y Premiwm ail gartrefi, canfyddiadau/canlyniadau Peilot Dwyfor newidiadau Cynllunio ayyb |